# Ysgol Edern

Lôn Rhos,
Edern,
Pwllheli,
Gwynedd.
LL53 8YW

01758 720272
llan.williams@edern.ysgoliongwynedd.cymru
www.ysgoledern.org
@YsgolEdern
/YsgolEdern


27.10.23

## Hanner Tymor!



Dyna hanner tymor cynta'r flwyddyn wedi hedfan heibio! Diolch o galon i chi am eich croeso a'ch parodwydd i gyd-weithio a chyfrannu at fywyd yr ysgol.
Mae wedi bod yn hyfryd cael amser i ddod i adnabod yr holl blant, a chi fel teuluoedd dros yr wythnosau diwethaf.







Rydym wedi cael hanner tymor prysur dros ben gyda ymweliadau, perfformiadau, cystadlaethau a theithiau cerdded - a hyn i gyd tra'n gweithio'n galed yn ein dosbarthiadau! Braf yw gweld pawb yn frwdfrydig am waith trwy'r ysgol - o adeiladu tai i'r tri mochyn bach, i ysgrifennu fel Matilda ac adeiladu barcud fel Danny.
Mae'r Cyngor Ysgol a Cyngor Eco wedi bod wrthi'n galed dros yr wythnosau diwethaf hefyd. Mae'r Cyngor Ysgol wedi llwyddo i gynnal cystadleuaeth cerfio pwmpenni, a'r Cyngor Eco wedi sefydlu 'Siop Swapio' gynta'r Ysgol.
Cawsom hefyd fore coffi llwyddiannus dros ben, diolch yn fawr iawn i bawb fu draw yn cefnogi!

Cofiwch y gallwch gael y wybodaeth ddiweddaraf am yr ysgol trwy ein gwefan, a'n gwefannau cymdeithasol. Dyma ambell i ddyddiad pwysig ar gyfer yr hanner tymor nesaf! Cliciwch yma i weld y calendr llawn.



**Dyma griw y Cyngor Ysgol gyda'r holl bwmpenni!**

| | |
|---|---|
| **06/11/23** | **Ysgol yn ail-agor** |
| **09/11/23** | **Gwasanaeth Anti Nla** |
| **16/11/23** | **Ymweliad PC Rhiannon** |
| **24/11/23** | **HMS** |
| **08/12/23** | **Sioe Cyw (Porthdinllaen)** |
| **12/12/23** | **Sioeau Nadolig** |
| **13/12/23** | **Cinio Nadolig** |
| **22/12/23** | **HMS** |

Edrychwn ymlaen at groesawu pawb yn ôl ar ddydd Llun, 6ed o Dachwedd. Mwynhewch eich gwyliau haeddiannol!

Diolch yn fawr,
**Mr Ilan Williams**
(Pennaeth Mewn Gofal)



*'Yma'n Ysgol Edern Ysgogwn a Heuwn Had.'*